# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 104(v3)

### 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i Ysgrifennydd y Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth**

**Russell George (Sir Drefaldwyn)**: O ystyried y cyhoeddwyd gorwariant o 23 y cant ar y prosiect i ddeuoli'r A465 rhwng y Fenni a Hirwaun, a wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau o ble y daw'r adnoddau ychwanegol i gyllido hyn?

Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am effaith y llifogydd diweddar ar rwydwaith ffyrdd Ynys Môn?

**Gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Darren Millar (Gorllewin Clwyd): Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i rhoi i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i honiadau o gam-drin ar Ynys Bŷr?

**Gofyn i Brif Weinidog Cymru**

Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y goblygiadau i Gymru o asesiadau effaith Brexit Llywodraeth y DU ar ôl iddynt gael eu rhyddhau ddydd Mawrth?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.2 i roi cyfarwyddiadau i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

(60 munud)

**NDM6573** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2, yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yn unol â'r amodau hyn:

1. Y dylid cynnal cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor ar y cyfle cyntaf i sefydlu ymchwiliad i'r honiadau a wnaed gan gyn-aelodau a chynghorwyr i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â bwlio, bygwth a thanseilio Gweinidogion.

2. Y dylai'r Pwyllgor sefydlu'r canlynol fel rhan o'i ymchwiliad:

a) pryd y gwnaed honiadau i'r Prif Weinidog a/neu ei swyddfa;

b) sut yr ymchwiliwyd i'r honiadau;

c) pa gamau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw ymchwiliad;

d) rôl y Prif Weinidog a'i swyddfa yn y broses o ymdrin â'r materion hyn; ac

e) dilysrwydd yr atebion a roddwyd gan y Prif Weinidog i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r honiadau hynny.

3. Y dylai'r Pwyllgor gymryd tystiolaeth gan dystion fel rhan o'i waith.

4. Y dylai'r Pwyllgor baratoi adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Cynulliad erbyn hanner tymor mis Chwefror 2018.

**Cefnogwr:**
Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** **Julie James (Gorllewin Abertawe)**

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.2, yn cyfarwyddo'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog i nodi:

1. Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i benodi panel o gynghorwyr annibynnol i ddarparu ffynhonnell allanol o gyngor arbenigol ar ymddygiad Gweinidogol yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan God y Gweinidogion, fel y nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd 2017;

2. Bod James Hamilton, sy'n gynghorydd annibynnol i Lywodraeth yr Alban ar hyn o bryd, wedi ei benodi'n gynghorydd annibynnol i Lywodraeth Cymru;

3. Bod y Prif Weinidog wedi cyfeirio'i hun at James Hamilton mewn perthynas â honiadau, a wnaed yn y pythefnos diwethaf, iddo weithredu'n groes i God y Gweinidogion; a

4. Adroddiad terfynol y Cynghorydd Annibynnol pan fydd yn cael ei gyhoeddi.

Datganiad Ysgrifenedig
Cod y Gweinidogion – Tachwedd 2017

## 6 Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)

(60 munud)

NDM6521

Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
David Melding (Canol De Cymru)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod y gall inswleiddio waliau ceudod, pan y caiff ei wneud yn gywir mewn eiddo addas, fod yn ffordd gost effeithiol o leihau biliau tanwydd, gan gyfrannu at leihau allyriadau carbon a thlodi tanwydd.

2. Yn credu, fodd bynnag, fod lleiafrif sylweddol o osodiadau yn parhau mewn eiddo anaddas ac eiddo nad yw'n cydymffurfio â safonau gwaith da, a bod ceisio cael iawn am hynny yn aml yn anodd a'r iawndal yn aml yn annigonol neu'n amhosibl ei gael.

3. Yn annog Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU, Cavity Insulation Guarantee Agency ac eraill i ddarparu iawndal priodol ac iawndal ar gyfer gwaith a gaiff ei osod yn anghywir, ac i gryfhau'r prosesau ar gyfer diogelu defnyddwyr yn y dyfodol.

**Cefnogwyd gan:**
Mick Antoniw (Pontypridd)
Russell George (Sir Drefaldwyn)
Sian Gwenllian (Arfon)

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

(60 munud)

NDM6594 Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r rôl hanfodol y mae staff rheng flaen Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn ei chwarae o ran cyflenwi gwasanaethau a chefnogi cleifion ar draws gogledd Cymru.

2. Yn nodi penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr o dan fesurau arbennig ym mis Mehefin 2015.

3. Yn credu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â mynd i'r afael ag amseroedd aros cynyddol yng ngogledd Cymru a sefyllfa ariannol y bwrdd iechyd wrth iddi waethygu.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) egluro pa gamau y mae'n eu cymryd i sicrhau nad yw'r ansicrwydd ariannol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn tanseilio'r gwaith o gyflenwi gwasanaethau;

b) cyhoeddi cynllun gweithredu clir i ddychwelyd y bwrdd iechyd at ei statws arferol; ac

c) egluro'r mesurau y bydd y bwrdd iechyd yn eu cymryd i wella canlyniadau i gleifion.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Dileu pwyntiau 3 a 4 a rhoi yn eu lle:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i herio Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i’r afael â’i amseroedd aros a’i sefyllfa ariannol annerbyniol.

Yn nodi’r cymorth sylweddol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i weithio i sefydlogi ac adfer ei sefyllfa.

Yn nodi y bydd y cynnydd yn cael ei adolygu gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru ddechrau mis Rhagfyr ac y bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn ystyried mesurau pellach y bydd raid i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ymgymryd â hwy er mwyn gwella.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y bydd angen ehangu'r gweithlu'n sylweddol er mwyn datrys y materion a wynebir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n golygu y bydd angen cynyddu lefelau hyfforddiant nyrsio a meddygol.

## 8 Dadl Plaid Cymru

(60 munud)

**NDM6595** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi o ran cyhoeddiad diweddar Llywodraeth y DU ar ei chyllideb:

a) nad oedd yn cynnwys cyhoeddiadau newydd penodol i Gymru; a

b) ei fod yn cynnwys adolygiadau ar i lawr ar gyfer twf economaidd, cynhyrchiant a buddsoddiad mewn busnesau.

2. Yn credu bod y newidiadau disgwyliedig i grant bloc Cymru yn adlewyrchu parhad mewn mesurau cyni aflwyddiannus yn hytrach nag adnoddau newydd.

3. Yn gresynu nad oedd cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar y gyllideb yn ymrwymo i roi unrhyw gefnogaeth i Forlyn Llanw Bae Abertawe.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gymryd camau i gael gwared ar y cap ar gyflogau'r sector cyhoeddus.

5. Yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau mwy o bwerau i wneud penderfyniadau ar fuddsoddiad mewn seilwaith ac economi Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd o £1.2 biliwn yng nghyllideb Cymru dros bedair blynedd o ganlyniad i symiau canlyniadol Barnett sy'n deillio o gyllideb y DU.

2. Yn nodi'r cynnydd o £67 miliwn yng nghyllideb Cymru o ganlyniad i'r fframwaith cyllidol a drafodwyd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

3. Yn nodi'r ymrwymiad yng nghyllideb y DU i ddechrau trafodaethau ffurfiol ar gyfer bargen twf gogledd Cymru.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2.** [Julie James (Gorllewin Abertawe)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 3 ac ychwanegu pwyntiau newydd:

Yn galw ar Lywodraeth y DU i gael gwared ar y cap a osodwyd ganddi ar gyflogau'r sector cyhoeddus ac ariannu codiad cyflog i holl weithwyr y sector cyhoeddus yn llawn.

Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatganoli mwy o bwerau i Gymru i wneud penderfyniadau am fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn cefnogi economi Cymru.

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM6593** [Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)]

Problem anweledig Cymru - effaith gymdeithasol hapchwarae

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2017

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 22/11/17 i'w hateb ar 29/11/17

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

1 OAQ51371 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i hyrwyddo diwydiant bwyd a diod Ynys Môn?

**Gareth Bennett** *Canol De Cymru*

2 OAQ51376

Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda Cyfoeth Naturiol Cymru am y rhaglen gwympo coed yn Fforest Fawr yn Nhongwynlais?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ51348

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am lefelau llygredd aer yng Ngorllewin De Cymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

4 OAQ51359

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i warchod mawndiroedd?

**Neil Hamilton** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

5 OAQ51366

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am raglen dileu TB buchol Llywodraeth Cymru yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**Steffan Lewis** *Dwyrain De Cymru*

6 OAQ51352

A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd mewn perthynas â nodyn cyngor technegol 1?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

7 OAQ51343

Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyhoeddi ynghylch ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tai?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**8** OAQ51360
Pa asesiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r gwahaniaeth rhwng prisiau bwyd y byd a phrisiau bwyd yr UE?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**9** OAQ51353 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gynnydd mewn perthynas â nodyn cyngor technegol 20?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

**10** OAQ51372
Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo mynediad at fannau gwyrdd a pharciau yn Nhorfaen?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

**11** OAQ51346
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi'r diwydiant pysgota yng ngorllewin Cymru?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**12** OAQ51369 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg
Pa gamau y gall Llywodraeth Cymru eu cymryd i leihau faint o blastig a gaiff ei ddefnyddio?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

**13** OAQ51341
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am statws cynlluniau datblygu lleol drafft mewn ceisiadau cynllunio presennol?

**Lee Waters** *Llanelli*

**14** OAQ51364
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu strategaeth ar amaethyddiaeth fanwl ar gyfer Cymru?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**15** OAQ51363
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith i fynd i'r afael â'r dioddefaint y mae defnyddio maglau yn ei achosi i anifeiliaid?

# Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

**Leanne Wood** *Rhondda*

1 OAQ51381
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith y tasglu ar gyfer y cymoedd yn Rhondda?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

2 OAQ51357 Datganodd yr Aelod fuddiant
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio etholiadol o fewn llywodraeth leol yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

3 OAQ51380
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer academi lywodraeth genedlaethol?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

4 OAQ51349
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gyflawni Ein Cymoedd, Ein dyfodol yng Ngorllewin De Cymru?

**Lee Waters** *Llanelli*

5 OAQ51365
Pa asesiad sydd wedi cael ei wneud o effaith awtomateiddio ar gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OAQ51358
Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi aelodau o gymuned y lluoedd arfog a'u teuluoedd yng Nghymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

7 OAQ51351
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y lluoedd arfog a chyn-filwyr yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

8 OAQ51345
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet egluro sut y bydd y setliad llywodraeth leol dros dro ar gyfer 2018/19 yn diogelu gwasanaethau lleol?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**9** OAQ51375
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet amlinellu pa gyngor y mae ei adran wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol yng Nghymru mewn perthynas â chasgliadau sbwriel?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

**10** OAQ51377
Pa gynlluniau sydd gan Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod cynghorwyr yn fwy cynrychiadol o'u poblogaethau lleol?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**11** OAQ51370 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg
Pa drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda mudiadau ym Môn cyn i gredyd cynhwysol gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2018?

**David Rees** *Aberafan*

**12** OAQ51361
Pa ddadansoddiad y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i wneud o'r effaith ar wasanaethau cyhoeddus os bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn mynd rhagddi â'i gynnig ar gyfer carchar ym Maglan?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

**13** OAQ51344
Sut y mae Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar y cyllid a ddyrennir i awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

**14** OAQ51379
Pa ystyriaeth y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'i rhoi i gynnwys canolfan strategol newydd sy'n cwmpasu cymoedd gorllewinol Dyffryn Aman a Chwm Gwendraeth fel rhan o dasglu'r cymoedd?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**15** OAQ51367
A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i helpu rhentwyr preifat yng Nghymru?